# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 22 Mai 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones, Sonia Williams (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini). |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ac fe'u nodwyd fel y cofnodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Carwyn Jones ddatgan budd personol ond nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda oherwydd ei rôl fel darlithydd yng Ngholeg Menai. Gan mai adroddiad ymgysylltu yn unig oedd mater dan sylw a gan nad oedd yn cael unrhyw effaith ar ei swydd, budd personol yn unig ydoedd.

**3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim i'w adrodd.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 fel rhai cywir.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Mehefin 2025 ac Ionawr 2026 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ar yr un newid i'r Blaenraglen Waith, sef ychwanegu'r Cynllun Strategol Digidol Ysgolion at agenda cyfarfod 21 Hydref 2025 y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mehefin 2025 i Ionawr 2026 gyda'r un newid a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6 ADRODDIAD YMGYSYLLTU – DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar ganlyniad yr ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch dyfodol darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, yr adroddiad gan esbonio bod yr adolygiad a'r posibilrwydd o ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn wedi'i nodi fel ystyriaeth allweddol o fewn Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor a'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. Cynhaliodd y Cyngor ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddyfodol darpariaeth addysg ôl-16 rhwng 20 Ionawr a 7 Mawrth 2025, ac mae manylion amdano wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Yn hytrach na chynnal ymgynghoriad ffurfiol ar hyn o bryd – gan nad yw'n gynnig penodol, dewisodd y Cyngor gynnal ymarferiad ymgysylltu er mwyn cynnwys mwy o randdeiliaid ac i gael sgwrs ehangach er mwyn deall gwahanol safbwyntiau a barn. Bydd yr adborth a gesglir yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf y Cyngor a'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth addysg ôl-16.

Tynnodd y Cynghorydd Dafydd Roberts sylw at natur gadarnhaol y broses a ddenodd gyfanswm o 779 o ymatebion. Yn benodol, daeth 30% o'r ymatebion gan ddysgwyr a phobl ifanc rhwng 16 a 21 oed. Yr ateb a ddewiswyd oedd cadw'r ddarpariaeth ôl-16 gyda phob un o'r darparwyr presennol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor a'i Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn cydnabod yr angen i adolygu'r model darpariaeth addysg ôl-16 presennol i sicrhau bod y system yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn ymateb i brofiadau dysgwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr heriau presennol yn y sector addysg ôl-16 gan gynnwys maint dosbarthiadau, newidiadau demograffig a hyfywedd ariannol. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyflwynwyd nifer o opsiynau a gwahoddwyd rhanddeiliaid hefyd i gynnig atebion eraill. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16, gyda 79% o blaid cadw'r ddarpariaeth gyda phob un o'r darparwyr presennol. O ran ymatebwyr cyffredinol, a phobl ifanc, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer dyfodol darpariaeth ôl-16 yw argaeledd lleol, ansawdd yr addysgu a'r dewis sydd ar gael o bynciau'n lleol. O ystyried yr adborth yn sgil yr ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, y dull a argymhellir yw datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol a bod swyddogion yn paratoi cynllun strategol i gefnogi'r cyfeiriad hwn. Bydd y cynllun hefyd yn ceisio lliniaru a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu

darpariaeth addysg ôl-16 ar hyn o bryd ar Ynys Môn a chryfhau hawl a phrofiad dysgwyr ôl-16. Mae'r weledigaeth hon yn rhan o'r uchelgais ehangach i sicrhau darpariaeth addysg o'r ansawdd uchaf posibl ar yr Ynys ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Rhoddodd y Cynghorydd Sonia Williams, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ddiweddariad o gyfarfod y pwyllgor ar 21 Mai 2025 lle adolygwyd yr Adroddiad Ymgysylltu ar Ddarpariaeth Addysg Ôl-16. Roedd y pwyllgor wedi nodi bod y broses ymgysylltu a'r gwaith darpariaeth addysg ôl-16 yn integreiddio sawl llinyn o Gynllun y Cyngor. Er bod aelodau'n nodi bod yr ymarferiad ymgysylltu wedi bod yn gynhwysfawr, ceisiodd sicrwydd bod yr ymarferiad wedi cyrraedd ystod amrywiol o bobl ifanc yn effeithiol a holwyd am ystod oedran, galluoedd a diddordebau ymatebwyr i sicrhau persbectif eang. Holodd yr Aelodau hefyd am y risgiau a'r heriau o beidio â gweithredu'r cynnig a thrafodwyd ei oblygiadau i'r Gymraeg. Ar ôl craffu ar yr adroddiad a derbyn sicrwydd boddhaol ynghylch y materion hyn, roedd y pwyllgor wedi penderfynu argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r bwriad i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol ac awdurdodi swyddogion i baratoi cynllun strategol i gefnogi'r bwriad hwn, a fydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar hyn o bryd ar Ynys Môn.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod yr adroddiad yn gam cadarnhaol a chroesawodd yr ymateb eang i'r ymarferiad ymgysylltu, gan ei gydnabod ei fod yn brawf o waith y Gwasanaeth Dysgu, yn enwedig wrth gynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb gydag ysgolion uwchradd a Grŵp Llandrillo Menai i gasglu adborth gan ddysgwyr ôl-16 presennol a dysgwyr yn y dyfodol.

Fodd bynnag, gofynnwyd am sicrwydd bod yr ymarferiad ymgysylltu yn ymestyn y tu hwnt i gampysau Coleg Menai, Llangefni a Bangor a grybwyllir yn yr adroddiad, o ystyried y gallai dysgwyr Ynys Môn fod wedi'u lleoli ar draws safleoedd eraill yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwasanaeth wedi gofyn i'r coleg sicrhau bod dysgwyr o Ynys Môn yn cael mynediad i'r holiadur, a bod yr ymarferiad ymgysylltu yn cael ei hyrwyddo'n ganolog. Awgrymodd y Pwyllgor Gwaith y dylid egluro hyn yn yr adroddiad. Yn ogystal â hyn, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith mai dim ond y cam cyntaf i adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yw'r adroddiad ymgysylltu ac wrth i'r broses ddatblygu, bydd ystod ehangach o safbwyntiau yn cael eu casglu. Yn bwysicaf oll, mae ymgysylltu ac adborth parhaus gan ddysgwyr ôl-16 presennol a'r rhai sydd wedi cwblhau eu haddysg ôl-16 – boed yn yr ysgol neu'r coleg, yn flaenoriaeth. Nododd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, yn amodol ar gymeradwyaeth, y gellid ymgorffori'r disgwyliadau hynny ar gyfer ymgysylltu rheolaidd yn y cynllun strategol i helpu i lywio'r rhaglen yn y dyfodol.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith ymhellach bwysigrwydd darparu'r cyfleoedd addysgol ôl-16 gorau posibl, gan gynnwys elfennau academaidd a galwedigaethol, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu dewis pynciau sydd o ddiddordeb iddynt heb gyfyngiadau diangen ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau pan fyddant yn dewis eu llwybrau ar gyfer y dyfodol. Er mwyn gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus, mae cefnogaeth ac ymrwymiad penaethiaid, timau arweinyddiaeth a chyrff llywodraethu darparwyr presennol yn hanfodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwasanaeth yn cynnal perthynas waith dda gyda'r ysgolion a'r coleg a'i fod yn hyderus y bydd modd cydweithio'n llwyddiannus ar y cam cychwynnol hwn.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen yng ngloeuni'r adborth o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus –**

- **Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol ac,**

- **Awdurdodi Swyddogion i baratoi cynllun strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol a fydd yn ceisio mynd i'r afael â, neu lliniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16.**

## 7 STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed a chynnal ymgynghoriad statudol arno, i'w ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yr adroddiad ac eglurodd fod Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor (Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) sy'n gynllun treigl naw mlynedd yn amlinellu'r cynlluniau a nodwyd ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf a chyflawni dros y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod concrit RAAC drwy adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi yn golygu bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa yn y tymor byr neu ganolig. Yn dilyn newidiadau yng nghanllawiau'r DU ym mis Awst 2023 ar RAAC, mae gwaith adfer helaeth wedi'i wneud i ddiogelu strwythur yr ysgol yn y tymor canolig, ond mae angen ateb hirdymor. Mae'r papur cynnig yn cyflwyno canlyniad y gwaith i ystyried nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae wedi'i ddrafftio yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (O11/2018).

Nododd y Cynghorydd Dafydd Roberts, pe bai'n cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad statudol, y gallai'r cynnig i adleoli dysgwyr yr ysgol i adeilad newydd fod yn gychwyn ar bennod newydd gyffrous i'r ysgol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y cynnig yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig ac yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i wella ysgolion a chreu amgylcheddau dysgu modern sy'n cefnogi cymunedau a'r Gymraeg. Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i ysgol newydd sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr rhwng 11 a 18 oed gyda lle i 900 o ddisgyblion. Wrth ddatblygu'r cynnig, ystyriodd y Cyngor nifer o ffactorau fel yr amlinellir yn y papur a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cynnig yw cyflwr yr adeilad presennol - wedi'i ddosbarthu fel Gradd C (gweithredol ond mae angen gwaith atgyweirio mawr arno neu godi adeilad newydd yn ei le yn y tymor byr i'r tymor canolig). Mae'r costau cynnal a chadw presennol a'r rhai a ragwelir ar gyfer adeilad presennol yr ysgol yn y dyfodol yn dod i swm o bron £29m. Er bod opsiynau eraill ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi wedi'u hystyried, fel y manylir yn adran 6 o'r adroddiad, ystyrir mai adleoli dysgwyr yr ysgol i ysgol bwrpasol newydd ar gyfer plant 11-18 oed yw'r ateb mwyaf effeithiol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Mae'r goblygiadau o ran cost wedi'u nodi yn adran 7 o'r adroddiad.

Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc hwn fel cyfnod cyffrous, ac yn gyfle i sefydlu ysgol fodern sy'n ategu ac yn cefnogi arferion addysgu a dysgu cyfoes, a fydd o fudd i staff a disgyblion. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â chyflwr adeilad yr ysgol, yn enwedig RAAC a gallai arwain at arbedion hirdymor o ran costau atgyweirio a chynnal a chadw dros y 25 mlynedd nesaf pe bai'n cael ei weithredu drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae hefyd yn cefnogi amcanion y Cynllun Amlinellol Strategol. O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig, mae adleoli ysgol i safle mwy na milltir i ffwrdd o'r safle presennol yn cael ei ystyried yn newid rheoledig, sy'n golygu bod angen proses statudol i gasglu ac ystyried barn dysgwyr a rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniad terfynol. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig ac awdurdodi swyddogion i gychwyn yr ymgynghoriad statudol angenrheidiol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sonia Williams, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, farn y pwyllgor sgriwtini ar ôl iddo drafod y papur cynnig yn ei gyfarfod ar 21 Mai. Dywedodd fod y pwyllgor yn cydnabod y cynnig fel cyfle cyffrous i sefydlu ysgol uwchradd fodern, ddiogel ac addas i'r diben yn ardal Caergybi a'i fod hefyd yn cynnig arbedion posibl o ran costau atgyweirio a chynnal a chadw. Roedd aelodau'r pwyllgor wedi ceisio sicrwydd bod y cynnig yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig, yn diwallu anghenion addysg uwchradd presennol ac yn y dyfodol yn ardal Caergybi, a'i fod yn fforddiadwy. Ar ôl adolygu'r papur cynnig a derbyn sicrwydd boddhaol, roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi penderfynu argymell y cynnig a'r broses ymgynghori statudol angenrheidiol i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith y cynnig gan awgrymu y byddai'n cyfrannu ochr yn ochr â datblygiadau eraill yn yr ardal, at adfywio'r dref. Pwysleisiodd, er bod adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi yn strwythurol ddiogel, fod angen buddsoddiad sylweddol yn y tymor hir i ddatrys yr heriau cynnal a chadw y mae'n eu hwynebu. Roedd yr aelodau yn credu y byddai'r adnoddau hynny'n cael eu gwario'n well ar adeiladu ysgol newydd sbon – un sy'n cynnig cyfleusterau dysgu modern, mwy o le yn yr awyr agored a digon o gapasiti i ateb y galw yn y dyfodol. Tynnodd y Pwyllgor Gwaith sylw ymhellach at y ffaith fod y cynnig yn buddsoddi mewn pobl ifanc a'r gymuned ehangach, ei fod yn gwella addysg ac yn cefnogi'r strategaeth Gymraeg. Wrth gefnogi'r cynnig, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch yr amserlen gan nodi na fyddai'r ysgol newydd, pe bai'n cael ei chymeradwyo, yn weithredol tan 2030. Esboniodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad, yn ogystal â'r broses ymgynghori statudol chwe mis, bod yn rhaid paratoi achosion busnes a chynlluniau manwl yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, sicrhau cymeradwyaeth ariannol a'r tir sydd angen ei brynu cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Wrth gydnabod cymhlethdod a hyd y broses o'u blaenau, ceisiodd y Prif Weithredwr annog pawb sydd â diddordeb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhannu eu barn, eu disgwyliadau a'u pryderon trwy sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu ffurfiol y cyngor.

Yn ogystal â hyn, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen uwchraddio adeiladau ysgolion eraill ar yr ynys. Er nad yw'r adnoddau presennol yn caniatáu gwelliannau ar unwaith, nid yw'r ysgolion hyn wedi cael eu hanghofio a byddant yn cael eu cynnal dros amser. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Caergybi a'r ffaith bod RAAC yn adeilad yr ysgol, mae'r oes sy'n weddill yn gyfyngedig sy'n golygu ei bod yn flaenoriaeth y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol uwchradd newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed," ac**
- **Awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.**

*Ar ddiwedd busnes ffurfiol y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r cyn-aelod o'r Pwyllgor Gwaith, y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor Gwaith. Roedd y gydnabyddiaeth hon yn dilyn ei benodiad yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ddydd Mawrth.*

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**